

Gair bach Bethlehem 2021

RHIFYN 27



www.bethlehem.cymru

(trydar) @GweBethlehem

Gwaelod-y-garth

Cyfnod y 'Covid-19' – rhif 27 Ebrill 18 2021

(Arbedwch inc a phapur! Peidiwch ag argraffu hwn – dim ond ei ddarllen ar-lein.)

O Mecca i Marks!

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r Gair Bach gyrraedd eich bwrdd brecwast mi fydd mis Ramadan wedi dechrau. Y mis eithriadol o bwysig hwnnw yn y calendr Mwslimaidd pan ma' dilynwyr y proffwyd Mohammed yn ymrydio o fore gwyn 'sbo nos. Dathliad yw'r mis, yn coffau'r cyfnod arbennig yna yn eu ffydd pan ddatgelwyd y Quran i'r proffwyd, a hynny yn y seithfed ganrif. (Yn ôl y ffydd Fwslimaidd datgelwyd Y Torah, sef 5 llyfr cynta'r Hen Destament, y Salmau a'r Efengylau hefyd mewn misoedd Ramadan, ond mewn canrifoedd cynharach wrth gwrs!)

Wedi'r ymryd, y wledd, yr "Eid", a dychweliad i fywyd "normal" ac, yn eironig iawn yr wythnos ddiwethaf 'ma, yn ystod Ramadan, fe ddaeth yna rywfaint o "normalrwydd" yn ôl i'n strydoedd dinesig ni, a gwelwyd diwedd ar ymryd hir siopwyr y genedl.

Do, fe agorwyd y drysau, ac fe lifodd y bobloedd i mewn trwy'r pyrth â diolch. Ond 'na fe, ma' hi 'di bod yn flwyddyn hir ac anodd, a phwy all weld bai ar bobl am awchu normalrwydd.

Oedd, roedd Canolfan Siopa Dewi Sant yn llawn dop o fore gwyn 'sbo nos, a phethau bychain a phethau mawrion yn diflannu fel slecs oddi ar y silffoedd. "Gwd Thing!"

Ond ai dyna beth bydde ymateb ein nawddsant gwedwch? Llawenydd o weld y bobl i gyd yn ei siopau "yn wên o glust i glust"? Neu a fydde 'na ryw dwtsh o dristwch yn ei lygaid wrth weld mwy o bobl yn ciwio i fynd i mewn i'w Ganolfan nag i'w Eglwys?

Delwyn

COFIWCH – bod croeso i bawb alw mewn yn yr Ysgol Sul ar Zoom.

I ymuno ewch i <https://us02web.zoom.us/j/71466343537?pwd=M2Nia2F3YWU3ZmJDZWNUNdD3M3ZCUT09> neu mewnbynwch 714 6634 3537 ac yna'r cyfrinair: Bethlehem. Cofiwch roi gwybod i Heulwen yn gyntaf: heulwen@btinternet.com neu 07779 360614

(yr hanesion diweddaraf am yr Ysgol Sul ar dudalen 2)

Yn y rhifyn hwn:

Trafod ail-agor * Y Pasg a'r Gwanwyn * Newyddion * Erthyglau * Wiwerod * Ieir * Priodas Aur!

Dydd Sul 14 Mawrth

A hithe'n Sul y Mamau cawsom gyfle i sôn am rai o famau y Beibl sef Sarah, Hagar, Rebeca, Leah, Rachel, Jochebed, Naomi, Hannah, Elisabeth a Mair. Sgwn i faint ohonoch chi sy'n gallu enwi plant y mamau uchod? Fe wnaeth Alys ac Anni, Gwenni ac Aaron, Sara ac Awen a Trystan a Mabon wrando yn astud a'u henwi i gyd!



Dydd Sul 21 Mawrth

Diwrnod ar ôl y gêm rhwng Cymru a Ffrainc yw hi a tro Caryl i arwain yr Ysgol Sul. Dewisodd ddarllen stori Alun yr Arth a'r Gêm fawr i'r plant. Aeth ymlaen i sôn am dîm Iesu, a gofynnodd y plant i feddwl am rhinweddau bod yn aelod o dîm. Anogodd nhw i ddylunio crys-t rygbi a fyddai'n dangos beth sy'n bwysig iddyn nhw.



Roedd hi'n fore prysur ac fe osododd Caryl dasg i'r plant i ddylunio wy Pasg yn ogystal. Delwyn fydd yn cael y gwaith anodd i'w beirniadu ac mi fydd gwobr i'r enillydd – wy Pasg wrth gwrs!



Cystadleuaeth: Dylunio Wy Pasg

Ewch ati i gynllunio wy pasg o'ch dewis!

Hoffwn i fi gynnwys y canlynol yn eich syniad
... rhestr/ manylion o'r cynhwysion e.e siocled gwyn, 'sprinkles' ayyb
... Sut fydd yr wy yn edrych?
... Maint yr wy (hyd a lled)

Sut i gyflwyno'ch syniad?

- ar bapur / yn ddigidol
- defnyddiwch app e.e sketches
- Adnoddau Hwb (J2e)

Byddwch yn greadigol a joiwch!

Pryd y dylid ail-agor y Capel ar gyfer addoli?

“Mae'n parhau yn gyfreithlon i addoli mewn addoldai dan “Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) fel y'u diwygiwyd.”

Dyna'r sefyllfa gyfreithiol bresennol, a dyna yn wir y sefyllfa sydd wedi bodoli ers i ni fod yn hualau'r ail glo a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2020.

Serch hynny, ein penderfyniad ni fel Diaconiaid, ar ran yr Ymddiriedolwyr, ac ar eich rhan chwi, oedd derbyn awgrym (a phwyslais) Cytûn:-

*“Efallai y bydd rhai manau addoli yn dewis peidio ag ailagor am beth amser, cymryd mwy o amser i agor a/neu barhau i ddefnyddio technoleg ar-lein i gynnal gweithgareddau ffydd a bugeiliol. Wrth reoli risg y cwestiwn cyntaf bob tro yw a oes modd i mi osgoi'r gweithgaredd peryglus. **Lle bo'n ymarferol ac yn rhesymol, dylid osgoi cyfarfodydd wyneb yn wyneb er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo'r feirws.** [pwyslais Cytûn] Dylai eglwysi, felly, ystyried yr egwyddor hon yn ofalus cyn mentro i ail-agor unrhyw weithgarwch.”*

A dyma'r sefyllfa ym Methlehem, Gwaelod-y-garth ar hyn o bryd.

Yn ein Cyfarfod Diaconiaid diwethaf a gynhaliwyd ar Zoom ar Chwefror yr 8fed, 2021, nodir fel a ganlyn yn y Cofnodion:-

“Y drefn addoli o'r 8fed o Chwefror 2021 ymlaen:

*Cytunwyd mai doeth fyddai parhau i **beidio** cynnal oedfaon yn y capel, o leiaf hyd at gyfnod y Pasg.*

Byddai adolygiad i'r trefniant yn bosibl trwy gydsyniad y Diaconiaid yn y cyfamser, ond nodwyd, gan na fyddai ail ran y brechlyn ar gael hyd at 12 wythnos wedi'r un cyntaf, y gallai hynny dywys ein golygon tuag at ddiwedd Ebrill cyn i bethau newid yn ein mysg.”

Wrth i ni felly symud i gyfnod tu hwnt i'r Pasg, gwn bod holi gan amryw ynglŷn â phryd yr ydym yn debygol o weld ail-agor drysau'r Capel unwaith yn rhagor.

Mae'r llwybr gofalus o du Llywodraeth Cymru i ganiatáu agor siopau a chynnal ddigwyddiadau yn ôl amserlen benodol yn ei gwneud yn anochel bod yn rhaid mwyach i ninnau gynnig ymateb i'r cwestiwn hwnnw.

Mae barn bendant ymhlith y Diaconiaid mai amcanu i ail-agor y Capel ar Sul y Pentecost (Y Sulgwyn Beiblaidd yn hytrach na'r Sulgwyn masnachol), sef Sul y 23ain o Fai 2021, fyddai'n briodol.

Ac fe awgrymir hynny am ddau reswm (a chaniatáu na fydd dirywiad yn y sefyllfa o hyn hyd at y dyddiad hwnnw!).

Yn gyntaf, fe ddylai bod cyfran helaeth o'r aelodaeth wedi derbyn o leiaf un dos o'r brechlyn erbyn hynny.

Yn ail, fe fanteisiwyd ar y cyfnod clo i geisio gwneud peth gwaith cynnal a chadw o fewn yr adeilad, ac er y bu gosteg yn y gwaith hwnnw am gyfnod, mae'r gwaith o ail-baentio'r seddi (fe gofiwch bod y paent arnynt yn plisgio) i'w gwblhau o fewn yr wythnosau nesaf yma (a sicrhau digon o amser i'r paent hwnnw sychu!).

[Bu i Ifan Roberts ein hatgoffa o bwysigrwydd hynny fel a ganlyn:-

“Da o beth fyddai gadael i'r paent galedu'n iawn ar y seddi - rhag digwydd i neb yr hyn fu hanes cot ffwr gwraig Albert Y Fawnog yn un o straeon Harri Parri:

“Mi gafodd goblyn o waith codi i'r emyn ola... ond ffeindiodd hi ddim ar y pryd. Gweld Idwal Foel Grachan 'nath hi ar y ffordd allan a hwnnw'n gofyn, yn ddigywilydd fel y bydd o, ai Edwards Y Felin oedd wedi bod yn cneifio'i chrwpar hi... Wyddoch chi, fedar Edwards ddim cneifio dros 'i grogi... A dyna pryd sylweddolodd hi bod darn o'r gôt ffyr cyn laned â chroen babi, fel ci â manji arno fo.”

A chaniatáu mai ail-agor ar Sul y 23ain o Fai 2021 fydd y drefn, byddwn bryd hynny yn gorfod cyd-ymffurfio a'r rheoliadau ynglŷn â'r niferoedd fydd yn gallu mynychu oedfaon, fel o'r blaen, ond cewch wybod mwy am hynny mewn da bryd cyn y dyddiad.

Oni fyddai'n dda cael dweud:-

“Ar ddiwrnod dathlu Gwyl Y Pentecost ‘roedd pawb gyda'i gilydd eto”

[Actau 2:1 (fersiwn Beibl.net)]



Mis Mawrth

Gan fod ein cyfarfod cyntaf ar Zoom fis Chwefror yn gymaint o lwyddiant – pawb wrth eu boddau'n gweld ei gilydd a mwynhau sgwrs wrth rannu profiadau'r clo, aethon ni 'mlaen i drefnu orig fach ddifyr arall b'nawn Mawrth, 16^{eg} o Fis Mawrth. Cyfarfod anffurfiol, hamddenol oedd hwn eto, ac Eirlys yn llywio'r cyfan yn fedrus.

Yn drist iawn roedd yn rhaid dechrau drwy gofio am un arall o ffyddloniaid y Cwrdd Merched a gollwyd yn ddiweddar sef Cath Edwards. Roedd hi'n aelod reit o'r dechrau un yn Hydref 2001, a bu'n ysgrifenyddes ddiwyd am flynyddoedd. Mynegwyd ein diolch a'n gwerthfawrogiad am deyrnged hyfryd Marian iddi hi ac i Elen, a ymddangosodd yn Gair Bach Bethlehem fis Mawrth. Da deall fod Marian yn gallu ein cynrychioli ni fel aelodau yn yr angladdau.

Gan ein bod newydd ddathlu Sul y Mamau y Sul cynt, yn briodol iawn agorodd Margaret y cyfarfod gan ddarllen y darn am Y Wraig Rinwedddol o'r Diarhebion a'r gerdd am Fam gan Dic Jones.

Braf oedd gallu croesawu aelod newydd i'n plith am y tro cyntaf, sef Menna Jones a symudodd hefo'i gwr, Iwan, o'r Drenewydd i fyw i Riwbina fis Hydref 2019 er mwyn bod yn agosach at eu tri phlentyn, ac at Gwenno Huws, chwaer Iwan. Diolch iddi am fod mor barod i gyflwyno'i hun.

Wedyn roedd y sgwrs yn llifo'n naturiol o un i'r llall. Diddorol oedd clywed fod Heulwen a Wyn yn hytrach na dim ond gwrando a gwyllo rhaglenni wedi cynnig eu hunain yn rhan o gynulleidfa rithiol i raglenni fel Gardeners' Question Time a QI!

Ges inne gyfle i sôn am fy hoffter mawr o wrando ar bodlediadau, sydd wedi bod yn gymaint o gwmni a diddordeb i mi wrth fynd am dro neu wneud ryw dasg yn y ty. Cyd-ddigwyddiad rhyfeddol oedd deall fod Ann Rhodri a minnau wedi cael cymaint o flas ar wrando ar y rhifyn diwetha' o'r rhaglen Outlook (Radio 4) y bore hwnnw – a chael gwybod gan Margaret mai Catrin, ei merch hi, oedd wedi cynhyrchu'r rhaglen! Yndydi'r byd yn fach?

Prif gonsyrn y rhan fwya' ohonom y tro yma oedd cyflwr ein gwalltiau, a mawr oedd yr edrych 'mlaen i ymweld â'r Siop Trin Gwallt yn y dyfodol agos! A'r pwnc arall o ddiddordeb oedd pryd y caem yr ail frechlyn. Diddorol oedd clywed fod dau o blant y capel, sef Angharad King a Catherine Blythe, yn gweithio'n Ysbyty'r Faenor Cwmbran, erbyn hyn. Roedd yn flin gennym ddeall fod Ann Siôn yn bryderus iawn am ei rhieni oedrannus sy'n byw yn Rhuthun.

Mis Ebrill

Wrth i ni i gyd feddwl am ail-gydio yng ngwaith yr ardd ar ôl Gaeaf hir, addas iawn oedd i Eirlys (Cerith) ddewis darllen cerdd "Y Border Bach" gan Crwys i ddechre cyfarfod Zoom y merched ym mis Ebrill. Mor braf yw gweld y blagur a'r blode ar y coed a'r llwyni'n ymddangos i godi'n calonne ni unwaith eto. Un o blesere bywyd i fi ers yn blentyn yw mwynhau darllen llyfr da a dyna oedd y dasg i ni i gyd y mis yma, sef sôn am unrhyw lyfre roedden ni wedi'u mwynhau a'u gwerthfawrogi yn ystod cyfnode clo y flwyddyn ddiwetha. Mae'n rhaid i fi gyfadde mod i'n bersonol wastad wedi teimlo'n euog wrth eistedd a darllen yn ystod y dydd oni bai mod i ar wylie neu bod y tywydd yn dwym iawn gartre a mod i'n eistedd a diogi yn yr ardd. Ond gan fod bywyd wedi bod cymaint yn arafach am flwyddyn gyfan erbyn hyn, mae'n siŵr bod llawer ohonom ni wedi cymryd mantais o'r tawelwch ac arafwch i gydio mewn llyfr da. Dwi'n tueddu darllen tipyn ar y "Kindle", teclyn handi iawn i'w gario o le i le. Ond... y broblem yw, fel y dwedodd Heulwen hefyd, yw mod i'n mynd o un llyfr i'r llall ac yn tueddu anghofio beth yw'r teitl a phwy yw'r awdur! Diolch byth bod Amazon yn f'atgoffa mod i wedi prynu llyfr o'r blaen cyn i fi dalu ddwywaith!

Rhian Huws

(parhad ar y dudalen nesaf)

Roedd amrywiaeth y llyfrau y dewiswyd sôn amdanyn nhw ar Zoom yn eang ac yn hynod o ddiddorol, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac eto roedd hi'n syndod sawl un ohonon ni oedd wedi mwynhau darllen yr un llyfre. Gwelwyd bod rhai ohonon ni'n mwynhau darllen ffuglen, rhai'n mwynhau cofianne, rhai'n mwynhau llyfre hanesyddol ac yn y blaen! Y llyfr wnes i fwynhau fwya yn ystod y flwyddyn ddiwetha 'ma oedd "Where the crawdads sing" gan Delia Owens, nofel yn sôn am ferch ifanc yn North Carolina a wynebodd anawstere di-ri ond a gafodd ei hysbrydoli gan fyd natur yr ardal o'i chwmpas. Ond pa fath bynnag o lyfr sy'n mynd â'ch bryd chi - yn sothach neu'n sylwedd - does dim ots, gan fod darllen yn ffordd wych o ymlacio ac anghofio am brobleme'r byd a Chovid-19.

Dyw hi ddim yn bosib cynnwys teitle'r holl lyfre a drafodwyd yma ond ma' croeso i chi gysylltu ag unrhyw un o'r criw merched os ry'ch chi'n awyddus i gael syniade. A chi ddynion.....doedd ein dewis o'n hoff lyfre ddim yn "girly" felly ma' croeso i chi ofyn am y teitle unrhyw bryd!

Gobeithio y byddwn ni ferched yn gallu cwrdd wyneb yn wyneb unwaith eto cyn bo hir. Ond tan hynny - joiwch y darllen a'r ymlacio!

Yr Oedfaon hyd y Sulgwyn

(i gyd ar-lein - hyd Fai 16)

Ebrill 18 – *Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans*

Ebrill 25 – *Emlyn Davies*

Mai 2 – *Delwyn Sion*

Mai 9 – *Gwasanaeth Cymorth Cristnogol (Heulwen)*

Mai 16 – *Y Parchedig Dafydd Andrew Jones*

Mai 23 – *Merched Bethlehem (gweler erthygl Rhodri-Gwynn ar dudalen 3)*

DYDDIAD CAU

AR GYFER DEUNYDD I'R RHIFYN NESAF

Mai 12

(Ysgrifennwch air neu ddau a'i anfon at Ifan Roberts:

tycnau@aol.com

Pêl-droed a'r sêd fawr

"Mae taid wedi cael ei ddewis yn **flaenor!**"

*"Bobol bach! Oeddw'n meddwl mai **cefnwr** oedd o?"*

"Mi fyddai wedi cefnu'n ddigon reit, tae o heb gael ei ddewis tro hwn!"

Oedfaon ar-lein – Mawrth i Ebrill

.....ac yn parhau i fod ar gael ar YouTube

Mawrth 21 –

Arwel Ellis Owen

<https://youtu.be/PCEzL6Bu8CE>



Mawrth 28

Robert Owen Griffiths Sul Y Blodau

<https://youtu.be/BXHYtJIG998>



Ebrill 4

Cymun Sul Y Pasg: Delwyn Sion, Peredur, Delyth a Wynford <https://youtu.be/vmGGKPsAItc>




Ynghyd ag aelodau'r Ysgol Sul, fu'n arddangos rhai o weithgareddau ac anrhegion cyfnod Y Pasg



Ebrill 11

Wynford a Meira Ellis Owen

<https://youtu.be/PTim3AslaPM>



NEWYDDION

LLONGYFARCHIADAU – i Marian a John Ifans, Radur, ar ddathlu eu priodas aur ar Ebrill 10fed. Yn y capel yn Nantlle bu'r briodas, a'r neithior yng Ngwesty'r Goat, Beddgelert. Ac os

ydy wyneb y gweinidog yn edrych yn gyfarwydd – ie, rydych chi'n iawn – R. Alun Evans. Roedd John ac yntau ar raglen "Heddiw" gyda'i gilydd yr adeg honno.



Dim wedi newid dim!

CYFARCHION – Anfonwn ein cofion at Mrs Ann Williams, Yr Eglwys Newydd. Da deall fod Mrs Williams yn ôl adref ar ôl treulio noson yn yr ysbyty'n ddiweddar.

CYDYMDEIMLO - estynnwn ein cofion at deulu Mrs Hilary Lewis, gweddw cyn-brifathro Gwaelod-y-garth, Hywel Lewis, a fu farw'n ddiweddar.

DARLITH AR-LEIN – Bu un o'n haelodau'n ddigon craff i weld cysylltiad lleol â darlith draddodwyd ar-lein yn ddiweddar am hanes yr Iddewon sefydlodd yng Nghymru. Traddodwyd y ddarlith i'r Cymrodorion yn Llundain gan Cai Parry Jones, fagwyd ym Mhentyrch. Dyma'r ddolen iddi: > <https://www.cymmrodorion.org/talk/the-jews-in-wales/>

Bydd rhai ohonoch yn cofio ei dad, Glyn Parry Jones, yn byw ym Mhentyrch. Mae Cai wedi gwneud ymchwil helaeth i'r teuluoedd Iddewig setlodd yng Nghymru dros y blynyddoedd

HELPU'R DYSGWYR - Hoffech chi helpu rhywun sy'n dysgu Cymraeg?

Mae Dysgu Cymraeg Caerdydd yn cynnig cynllun gwirfoddol o'r enw Siarad i'r dysgwyr. Mae'r cynllun ynparu dysgwyr a siaradwyr rhugl er mwyn cynyddu hyder y dysgwr i siarad ac i ddefnyddio'r Gymraeg. Bydd y dysgwyr sy'n rhan o'r cynllun yn gallu siarad Cymraeg, ac ar lefel Canolradd neu Uwch.

Oherwydd yr argyfwng iechyd, maent yn chwilio am wirfoddolwyr sy'n barod i helpu trwy sgwrsio dros y ffôn neu ar blatfform tebyg i Zoom/Facetime/WhatsApp. Bydd y paru'n cwrdd yn gyson i sgwrsio'n anffurfiol am bob math o bynciau - y nod yw neilltuo deg awr dros gyfnod o flwyddyn, ond nod yn unig yw hyn.

Am ragor o wybodaeth ac i gofrestru, <https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad/> gan ddewis Dysgu Cymraeg Caerdydd fel y rhanbarth. **Gwenllian Willis**, Swyddog Cefnogi Dysgwyr a Chynnwys Digidol, Dysgu Cymraeg Caerdydd

DECHRAU NEWYDD A GOBAITH

Rydym ni fel Cristionogion wedi bod yn meddwl am atgyfodiad Iesu Grist dros gyfnod y Pasg. Ond gallwn hefyd ymestyn ystyr yr atgyfodiad i'r hyn ry'n ni'n ei brofi yn y byd o'n cwmpas ac yn ein bywydau bob dydd. Yn wir rydym yn profi atgyfodiad yn ein cymdeithas ar hyn o bryd gyda diwedd y clo mawr, ysgolion a siopau yn ailagor a hen arferion yn medru ailgychwyn.

Meddylw'n gyntaf am yr ail eni ym myd natur. Wn i ddim amdanoch chi, er yr heriau ry'n ni wedi'i wynebu dros y flwyddyn diwethaf, does gen i ddim amheuaeth ein bod i gyd wedi dod yn fwy ymwybodol o'r newidiadau yn y tymhorau. Yn y Gwanwyn fel hyn fe welwn flagur yn ffurfio ar y coed, caneuon adar ar doriad gwawr, a dyfodiad yr wyn bach i'r caeau. Arwyddion gobaith. Dyma i chi atgyfodiad ry'n ni'n eu profi'n flynyddol, sy'n codi'r galon ac yn arwydd bod dyddiau gwell i ddod. Mae rhyw gysur o wybod bod y tymhorau wastad yma'n rhan o gylch tragwyddol bywyd, a chenhedlaeth newydd o anifeiliaid, adar a phlanhigion yn profi gwefr bywyd o'r newydd. Mae teimlad o ddiolchgarwch hefyd wrth weld newid yn y tymhorau. Dychmygwch mor ddiflas fyddai hi pe na byddai'r newidiadau hyn yn digwydd, fel y tystia unrhyw un welodd bennod arbennig Deian a Loli ar y teledu dros y Nadolig!



Efallai bydd rhai'n meddwl am atgyfodi breuddwyd, prosiect adeiladu yn yr ardd, mynd ati i gynllunio gwyliau, ysgrifennu llyfr, creu darn o gelf, neu gyfansoddi cerdd. Faint ohonom sydd wedi gadael llyfr ar ei hanner, neu storfa o hen luniau yn aros i gael eu sortio? Yn aml iawn ym mhysurdeb bywyd mae gwaith yn cael ei adael ar ei hanner. Efallai fod gennym uchelgais i ddatblygu ein gyrfa, neu gyflawni her corfforol. Campau a oedd ymhell o'n cyrraedd ar un adeg a fyddai wedi ailfywiogi yn sgil rhyw newid neu gyfle yn cynnig ei hun. Ac o ddyfnderau anobaith, mewn atgyfodiad mae gobaith. Faint ohonom sy'n chwilio am arwyddion gobaith yn ein byd, y deffroad gwleidyddol ymysg yr ifanc, cefnogi achosion fel Black Lives Matter, gweithredu ar fygythiad newid hinsawdd ac ymwybyddiaeth gynyddol o'n hetifeddiaeth Gymreig? Ni fyddai modd atgyfodi achosion cyfiawnder heb gyfraniadau'r genhedlaeth a fu. Mae atgyfodi breuddwyd yn allweddol er mwyn creu byd gwell.

Ac yna beth am atgyfodi hen berthynas? Hen ffrind sydd heb fod mewn cyswllt ers amser neu hen berthynas wedi mynd yn angof. Ond, yn ehangach na hynny, oes cyfle yma i atgyfodi'n perthynas gyda'r gymdeithas o'n cwmpas? Estyn help llaw i'n cymdogion a chyda calon agored bod yn barod i wrando ar ofidiau eraill. Ac yn olaf, beth tybed yw ein perthynas gyda'r amgylchedd naturiol? Ydy hi'n hen bryd i ni ail gysylltu gyda'r rhyfeddodau ym myd natur a'i warchod i genedlaethau'r dyfodol?

Yr hyn welwn ni wrth ystyried y gwahanol fathau o adfywio ry'n ni'n eu profi yn ein bywydau bob dydd, yw'r gwirionedd bod goleuni'n trechu'r tywyllwch, gobaith yn trechu anobaith a bod bywyd yn trechu marwolaeth. A mai cariad yw hanfod pob dim.

Fel y dywed Dic Jones yn ei awdl i'r Gwanwyn,

“Tra bo cyw i'r ddeuryw'n ail ddeori
Ni bydd i ffydd gael ei diffoddi,
Bydd gwr diorffwys yn torri cwysi
Ac yn y gleien bydd og yn gloywi,
Bydd Gwanwyn a bydd geni'n dragywydd,
A'r glaw o'r mynydd yn treiglo'r meini.”

Aeth bron i ddeugain mlynedd heibio ers i mi deithio i wlad Groeg am y tro cyntaf ond yno cefais brofiad nad anghofiaf fyth.

Gwyliau'r Pasg oedd hi a ninnau wedi dathlu yn y ffordd draddodiadol. Roeddwn wedi tacluso o gwmpas beddau'r teulu ac wedi gosod blodau ffres yn y potiau erbyn Sul y Blodau, wedi derbyn ac anfon ambell i gerdyn yn nodi'r achlysur, wedi paratoi a bwyta teisen Simnel, wedi prynu a bwyta'n siâr o wyau siocled ac wedi mynychu'r Gymanfa Ganu a'r nifer ymarferion cyn y diwrnod mawr, gan ganu ag arddeliad yn y tri chyfarfod Llun y Pasg.

Bu'r daith awyren yn gwbl ddiraffferth, ac yng wlad Groeg roedd yr awyr yn las, yr haul yn gynnes ond y gwres heb fod yn llethol, pob gwesty'n gysurus a'n hymweliadau â manau ac adfeilion hanesyddol yn hynod ddi-ddorol. Roeddwn wedi gadael Nafplion fore Gwener ac ar ein ffordd i Sparta, tref fodern a godwyd ar adfeilion y dref hynafol, pan, trwy ffenest y bws, sylwais ar bentrefwyr yma a thraw yn cario defaid a ymddangosai'n farw gelain.

Y tro cyntaf teimlais yn drist, gan feddwl bod teulu bach wedi dioddef colled ariannol go ddrwg, ond cyn hir gwawriodd arnaf nad cyd-ddigwyddiad oedd hyn gan i mi sylwi ar yr un peth mewn sawl pentref. Dim ond pan ddechreuodd ein tywysydd esbonio'r arferiad o rostio oen ar gyfer y Pasg a'n cymell i ymuno yn y dathliadau y deallais ein bod yn cael y fraint o ddathlu'r Wyl ddwywaith y flwyddyn honno. Erbyn canol y prynhawn roedd y trigolion i'w gweld yn cynnal partiön mewn gerddi, neu ar sgwariau pentrefi yma a thraw, yn rostio wŷyn, bwyta a chymdeithasu'n braf.

Y noson honno roeddwn yn ran o dyrfa fawr ar strydoedd Sparta'n gwyllo carfannau o bobl yn cerdded o'r gwahanol eglwysi, un garfan yn dilyn y llall a'r cyfan yn gorymdeithio'n urddasol drwy'r dref dan lafarganu. Yn arwain bob carfan roedd offeiriaid a dynion yn cario creiriau sanctaidd yr eglwys yn barchus a gofalus, rhan fynycha' ar bolion ysgwydd. Roedd y creiriau'n lliwgar ac addurnedig, baneri a rhubanau'n cyhwfan a chanhwyllau

a tortshis pwerus yn goleuo'r cyfan. Yn ôl a ddeallwn, dim ond unwaith y flwyddyn y byddai'r creiriau'n gadael diogelwch yr eglwysi. Roedd yn dipyn o brofiad.

Teithio eto'r diwrnod canlynol ond fe'n hanogwyd i fynychu'r oedfa yn yr eglwys agosaf at y gwesty y noson honno. Cyhoeddodd y tywysydd bod y gwasanaeth yn dechrau'n weddol gynnar ac yn parhau tan wedi hanner nos. Doedd yr un o'r teithwyr am dreulio oriau bwy gilydd mewn addoldy heb ddeall gair o'r gwasanaeth ond fe'n sicrhawyd y gellid cerdded mewn ac allan fel y dymunem gan mai dyna arferiad trigolion y pentre.



Mentrodd rai ohonom i'r eglwys tua un ar ddeg a chanfod pobl yn sefyll mewn rhesi'n gwrandao ar yr offeiriaid yn llafarganu. Roedd pob un, o'r hynaf, a eisteddai ar gadeiriau yn y cefn, i'r ieuengaf, plant bach ym mreichiau'u rhieni, yn dal kannwyll heb ei oleuo a rhoddwyd kannwyll yr un i ni'r dieithriaid.

Roedd digonedd o olau yn yr eglwys, yr offeiriaid yn llafarganu, darllen a gweddio a'r gynulleidfa'n ymateb yn achlysurol. Ond am hanner nos diffoddwyd bob golau yn yr adeilad, aeth y lle cyn dywyllled â'r fagddu ac yn gwbl ddistaw. Mewn ychydig funudau gwelsom olau bach egwan yn ymddangos o gyfeiriad yr allor a llais yr offeiriad yn y pellter yn cyhoeddi'n orfoleddus, "Christo anesti!". Yn raddol roedd mwy o leisiau'n cyhoeddi'r un geiriau, "Christo anesti" (Crist a atgyfododd) a smotiau bychain o olau'n ymddangos yn y tywyllwch wrth i un gannwyll ar ôl y llall dderbyn tân oddi wrth y nesaf ato. O fewn ychydig amser roeddem i gyd â'n canhwyllau ynghyn yn cyhoeddi "Christo Anesti"

Roedd hi'n fore Sul y Pasg.

“Rydw i’n “borthwr” bellach - ac rwy’n cymryd fy nghyfrifoldeb newydd o ddifri’...”

Dyna, os cofiwch chi, oedd brawddeg olaf fy erthygl yn y Bwletin d’wethaf. Bryd hynny roeddwn wedi gwirioni gyda’r syniad o ddenu adar deniadol o bob lliw a llun i fwydo’n fodlon ar fy hadau haelionus. Yr eironi yw fy mod bellach nid yn unig yn gyfrifol am borthi adar mân yr ardd ond hefyd nifer helaeth o wiwerod rheibus, hyderus, cynllwyngar sy’n mynnu cymryd mantais o fy ngharedigrwydd... ac mae’r sefyllfa ar fin troi yn gas!

Rownd 1

Ar ôl wythnos hwyliog yn gwylio adar yn hedfan yn hapus dan ganghennau’r goeden fe sylwais fod y cnau yn diflannu’n anarferol o gyflym o diwbyn plastig y porthwr. I ddechre, doeddwn i ddim yn deall pam - nes i fi weld y wiwer lwyd wrth ei gwaith!



Llwybreiddiodd ei rhyfeddod prin o’r blaen cyn troelli ei chynffon am y gangen ac ymestyn ei phawennau barus. Cafodd afael ar y porthwr a llenwodd ei bol. I gwblhau y perfformiad fe ysgwydodd y porthwr yn ffyrnig, nes fod yr hadau’n

tasgu, cyn iddi lithro lawr y goeden a pharhau i fwyta’r hadau ar lawr...

Wiwer 1 - Rhys Powys 0

Rownd 2

Rhaid oedd symud y porthwr ar frys a’i hongian ar gangen anghysbell - un oedd, yn fy marn i, y tu hwnt i gyrraedd y wiwer ddewraf un. Ond gobaith ffôl oedd hwn. Ymhen dim amser roedd y porthwr ei hun ar lawr - ac olion dannedd miniog wedi cnoi trwy’r bachyn plastig. Nid yn unig roedd y wiwer, neu fyddin o wiwerod, wedi cyrraedd y bwyd, ond

roedden nhw hefyd wedi fandaleiddio fy eiddo yn y broses..!

Wiwer 2 - Rhys Powys 0

Rownd 3

Roedd pethau’n dechre troi’n gas - a doeddwn i ddim wedi gweld aderyn ers diwrnodau. Penderfynais hongian y porthwr plastig ar llyn “bungee” elastig cryf. Roedd hwn ymhell y tu hwnt i gyrraedd wiwer - a phetai’r wiwer yn neidio ar y porthwr o’r gangen yna byddai’r elastig yn ymestyn.. cyn hyrddio’r anifail dros y wal ac i fewn i ardd drws nesaf!

(Dwi’n teimlo ychydig yn euog yn cyfaddef fy mod wedi dychmygu y



fath sefyllfa, ond roedd y “Wiwer Wars” wedi troi’n bur ddifrifol erbyn hyn). Dychmygwch fy sioc, felly, pan welais y wiwer yn ymestyn, fel creadur cartŵn, cyn bownsio’n fodlon ar y “bungee” a gwagio’r porthwr eto. Ei dannedd yn cnoi’n brysur a’i bochau yn llenwi’n foddhaus... a dwi’n grediniol i fi weld gwên fuddugoliaethus yn lledu ar draws ei gweflau.

Wiwer 3 - Rhys Powys 0

A dyna fel y mae hi hyd heddiw â finiau yn gorfod ymgodymu â chwestiynau moesol newydd sbon: a ddylwn fodloni ar fwydo wiwerod yn ogystal ag adar?

Onid yw wiwerod yn greaduriaid Duw sy’n haeddu yr un chwarae teg ag ehediaid y nefoedd? Pam ydw i mor gyndyn i wobrwyo dyfeisgarwch, dycnwch a deallusrwydd anifail bach blewog sydd wedi achub y blaen arna i bob cam ers wythnosau?

Onid yr un yw’r ateb bob tro. Mae’r wiwer yn hunanol, yn farus ac yn haerllug. Mae’r adar, ar y llaw arall, yn ddiolchgar ac yn hapus i ganu am eu swper. Pwy, felly yw’r mwyaf haeddiannol? Fel y dywed gohebwy newyddion S4C - “...mae’r achos yn parhau”!

Mae ocsiwn yn ddigwyddiad peryglus, ac eto dwi wrth fy modd mewn arwerthiant ac wedi syrthio i'r arfer o fynd i nifer ohonyn nhw ar draws Cymru. Byddai'n llawer callach petawn ni wedi aros adre. Ac eto! Mae'r tŷ a'r ardd yn llawn o greiriau 'dwi rhywsut wedi eu prynu drwy wincio ar yr ocsiwniâr, neu symud fy nghorff er mwyn eistedd yn fwy cyfforddus. Fe brynais un plât drwy godi llaw i gyfarch ffrind. Dro arall, wedi mi deithio gryn bellter i brynu setl oedd yn mynd i ffitio i'r dim yn y portsh, dyma ddod nôl gyda cheiliog a iâr concrit. Rown i'n orawyddus i'r arwerthwr wybod lle o ni yn sefyll yn yr ystafell er mwyn sicrhau y setl, felly dyma wneud bid am y ceiliog a'r iâr concrit, oedd ar werth yn y lot cyn y setl. Yn anffodus, doedd gan neb arall ddiddordeb mewn cludo'r tunnell o goncrit adre, ac erbyn i mi sylweddoli beth o ni wedi wneud, a thawelu Margaret, clywais sŵn y morthwyl yn dod lawr ar y bidio am y lot nesa, sef y setl, i ben!



Gwell peidio trio disgrifio'r awyrgylch yn y car ar y ffordd nôl.

Bu ond y dim i mi gael dwbl hernia wrth lusgo'r ceiliog a'r iâr i'r car. Dro arall dyma dderbyn catalog arwerthiant o luniau a gofyn i'r plant oedd gan un ohonyn nhw ddiddordeb mewn prynu rhywbeth, petai'r pris yn rhesymol?

"Dwi'n hoffi lot 346 meddai un or merched. Mae angen pictiwr mawr uwchben y gwely".

Fel arfer dwi'n mynd i weld y stwff sydd ar werth, petai ond i gael glasiad o win yn rhad ac am ddim. Y tro hwn roeddwn i'n teithio nôl adre o'r Gogs y noson cyn yr arwerthiant. Ac ar fore'r "Sale", rhaid oedd yn gynta' mynd ar mab i gêm rygbi. Cyrraedd yr arwerthiant jest mewn pryd a chael sioc o weld nac oedd fawr o ddiddordeb yn lot 346, er mai llun gan neb llai na Gwen John oedd y portread. Dyma lwyddo i'w brynu am lai na'r uchafswm gytunwyd gyda Catrin yr efaill. Tectio honno gyda'r newyddion da. Codi i gasglu y trysor a darganfod mai llun maint postcard oedd y gwrthrych. Wnes i ddim ei gynnig i'r ferch oedd yn disgwyl ffrâm maint poster i guddio crac yn y wal.

Ambell dro dwi yn gwerthu mewn ocsiwn. Wrth glirio ffermdy teulu Margaret dyma ddarganfod dau blât mewn amlen. Gofyn oedd unrhyw un yn gwybod rhywbeth am y platiau? Roedd un yn cofio y penteulu yn dweud bod y platiau'n "werth arian mawr" ond pan aethon nhw a'r platiau i arwerthwr yng Nghaerdydd, dywedodd "I couldn't sell them if you paid me".

Mi es ar Google a darganfod bod partner un o'r platiau wedi ei werthu yn Cape Town ddeunaw mis yn gynharach. Pan aeth y platiau i'r arwerthiant, llwyddwyd i ddenu £5600 am un a £4500 am y llall. Ydach chi'n deall nawr pam mod i'n gwastraffu fy amser mewn ocsiynau ledled Cymru?

Ar ffens y Garth



Do – bu dau newidiad..

Calon a Chennin Pedr oedd yno'r mis diwethaf. Erbyn hyn, mae'n crwydryn o ffotograffydd wedi nodi'r delweddau newydd. Fe welwch hefyd fod yr awyr wedi glasu ers Y Pasg! Arwydd pendant fod dyddiau gwell i ddod!



‘Rydych i gyd yn gyfarwydd a’r term a ddefnyddir i ddynodi’r cyfnod mewn hanes cyn geni Iesu Grist - sef Cyn Crist neu C.C.

Ac hefyd mai Oed Crist (neu’r Lladin *Anno Domini*, "Ym mlwyddyn yr Arglwydd"), OC neu AD, yw'r system o rifo blyneddodded o ddyddiad traddodiadol genedigaeath yr Iesu. System yw a ddyfeisiwyd yn Rhufain yn 525 gan fynach o’r enw Dionysius Exiguus.

Ers yr 20fed ganrif (er, yn ôl Wicipedia, y bu i Johannes Kepler ei ddefnyddio gyntaf mor bell yn ôl a 1615) daeth y termau niwtral BCE (*Before Common Era*) ac CE (*Common Era*) yn gyffredin mewn cyhoeddiadau academiaidd a gwyddonol, ac ymysg y rhai hynny sydd yn fwriadol geisio osgoi’r cyswllt Cristnogol ag unrhyw gyfnod.

‘Rwyf am gynnig un arall at eich defnydd o hyn ymlaen, sef CCC – y “Cyfnod Cyn Clo”. A phwy o’ch mysg sy’n cofio mor bell yn ôl a hynny tybed? A pham yn wir bod angen diffinio’r cyfnod hwnnw yn wahanol?

Wel, cael cip yn ôl ydi’r bwriad, er atgoffa ein hunain o’r hyn oedd yn arfer digwydd yn enw Bethlehem, Gwaelod-y-garth, ac o fewn muriau’r capel cyn i’r haint ein caethiwo.

A’r hyn a’m sbardunodd i wneud hyn oedd derbyn swp o gylchgronau'r gyfres “Newyddion Bethlehem” oddi wrth Ifan Roberts o’r cyfnod 2007 hyd 2010, nad oedd bryd hynny yn cael eu dosbarthu yn ddigidol, fel a wneir mwyach.

A dyma’r chwiw yn codi i ymweld a’r hyn a oedd yn digwydd yma 10 mlynedd CCC.

Ac fe ges fy syfrdanu a’m synnu. I gychwyn, syfrdanu faint o bethau yr oeddwn wedi eu anghofio o’r cyfnod yna. Synnu fod yna ddeng mlynedd wedi hedfan ers rhyw ddigwyddiad neu’i gilydd. Fy syfrdanu a’m synnu o’r ochr orau maint haelioni a brwdfrydedd yr aelodaeth i bob dim oedd yn cael ei wneud er budd a chymorth i eraill mewn angen.

Dyma felly gronoleg o beth o’r hyn y deuthum ar ei draws yng ngholofnau “Newyddion Bethlehem” 2010:-

- Yn ystod Pythefnos Masnach Deg, cyflwynwyd Tystysgrif Masnach Deg i Fethlehem.
- Cafwyd cwmni Côr Caerdydd, dan arweiniad Gwawr Owen, gyda’u cyflwyniad o “Myfyrdod ar y Croeshoeliad”
- Daeth diwedd tymor y Parchedig R Alun Evans fel Cadeirydd Cwrdd Chwarter Dwyrain Morgannwg
- Derbyniodd Wynford Ellis Owen Gymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill i ymweld a chanolfannau adferiad cymunedol yn yr Unol Daleithiau. Wedi iddo ddychwelyd gartref cafodd ei ethol i Fwrdd Ymgynghorol “Wired in”, corff sy’n delio a phroblemau camddefnydd sylweddion.
- Cafwyd ymweliad gan y Parchedig Vivian Jones i gloi tymor 2009/10 “Drws Agored” - maes llafur y tymor hwnnw oedd astudiaeth o’i gyfrol “Menter Ffydd”.
- Yng Nghymun Mawr Mai derbyniwyd pedwar bachgen ifanc yn gyflawn aelodau – Steffan Llewellyn, Seth a Dafydd Griffiths, a Gruffydd Cartwright.
- Bu Rhys Dafis yn dringo hyd at gopa Mynydd Jbel Toubkal, y mynydd uchaf yng nghadwyn yr Atlas ym Morocco (13672 troedfedd / 4167 metr) - casglodd £1800 er budd yr elusen yr oeddem yn ei chefnogi’r flwyddyn honno, sef Cymdeithas Clefyd Motor Neuron a BanglaCymru (elusen 2009).
- Bu’r Cwrdd Merched yn “Crwydro Powys”, gan ymweld a Chanolfan Trefeca a’r Gelli Gandryll. Buont hefyd ar ymweliad a Llyfrgell Caerdydd, yn dysgu “Nyddu Gwlân”, yn darllen llythyrau’r Parchedig R Alun Evans, a theithio hefo Peter Peter Wynn Thomas i Fagladesh. Yn nhymor newydd 2020/21 cafwyd cwmni Mary William i drafod “Tafodiaith, idioma ac ymadroddion Cymoedd De Cymru”
- Bu Huw Roberts yn cerdded 80 o filltiroedd o Landdewi Brefi i’r Gadeirlan yn Nhŷ Ddewi, a chasglwyd £10,700 ganddo ar y daith er budd Sefydliad Prydeinig y Galon. Cafodd gwmi sawl un o Fethlehem ar gymal olaf y daith.
- Cynhaliwyd Cyngerdd Mai er budd Cymdeithas Clefyd Motor Neuron yng nghwmni Aelwyd y Waun Ddyfal a disgyblion Ysgol Gwaelod-y-garth. (Wedi’r cyfarfod cafwyd y “bwffe gorau erioed” yn ôl Huw Foulkes, Arweinydd Côr yr Aelwyd!)
- Yn y Swper Haf blyneddol cyflwynwyd sic gwerth £3,000 i Cymdeithas Clefyd Motor Neuron.
- Dewiswyd “Yr Ystafell Fyw” fel elusen i’w chefnogi am y flwyddyn am 2010/11.

(Parhad ar y dudalen nesaf)

- Bu llifogydd difrifol ym Mhacistan ac anfonwyd £1000 i Cymorth Cristnogol i helpu i liniaru effaith y dwr ar y boblogaeth leol.
- Cafwyd cwmni y Prifardd Glenys Roberts, enillydd y Goron yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Blaenau Gwent a Blaenau'r Cymoedd 2010, i agor tymor newydd 2010/11 "Drws Agored".
- Cyhoeddwyd rhestr "Stondin Gacennau" am y flwyddyn 2010/11 gyda pob ardal yn ei thro yn gwerthu'r cynnyrch ar Sul y Cymun er budd yr elusen leol.
- Cyhoeddwyd rota'r flwyddyn ar gyfer paratoi Te i'r Anghenus yn y Tabernacl, Yr Ais
- Cynhaliwyd Oedfa Nadolig yng Nghartref Gofal Dyffryn Ffrwd.
- Yn dilyn penderfyniad Undeb yr Annibynwyr i brynu offer teledu i gynhyrchu ffilmiau byr ar gyfer www.annibynwyr.tv fe heuwyd hedyn ymysg yr ieuencid ym Methlehem, gyda chymorth Rhys Powys, i greu ffilm - "Dechrau yn y Gwaelod".
- ...a bu Rhys Powys hefyd yn bwyta bwyd ci yn y Cwrdd Diolchgarwch y flwyddyn honno...



Tudalen 6 Gwanwyn 2010

Gellid bod wedi ychwanegu at y rhestr uchod yn hawdd iawn, ond dwi'n sicr y bydd y neges wedi'n cyrraedd yn glir – dyma fydd y sialens a'r her i ni WCC. Fyddwch chi'n barod i fod yn rhan o'r gêm?

ODLAU'R GARTH

Diolch i Martin Huws, Ffynnon Taf, am ei gerdd am Argyfwng Taflegrau Ciwba 1962. Dywed: "O'n i'n un ar ddeg ac yn meddwl bod y byd ar fin dod i ben."

Storom

(Argyfwng Taflegrau Ciwba, Hydref 1962)

Cyrliaf dan y cwrlid gwyn,
o's 'na obaith ffoi rhag hyn?
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Plant dan ddesgiau'n plygu lawr,
cwato rhag y danchwa fawr.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Awyrenne rownd y byd
sy'n ein gwarchod ni i gyd.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Agosáu ma' llonge Rwsia
at flocâd ger ynys Ciwba.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Yn eu bolie gorwedd tranc
fel yn nofel antur llanc.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Uwch fy mhen mewn gole gwan
croga hi yn gelfydd glân.

Kennedy sy'n arfer pwyll,
nid pob gwleidydd sy'n llawn twyll.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Rhychwant ei hadenydd hi'n
gysgod dros 'y ngwely i.

Yn America bob dydd
propaganda'n cadw'r ffydd.
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Tene yw ei llinyn brau
wrth i hade distryw hau.

Fydd un ochor yn ymatal
tra bo'r byd yn dal ei ana'l?
Cysga'n dawel, bach, medd Mam.

Martin Huws